

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Talylychau o bell trwy gynhadledd Zoom/ffôn nos Fawrth 4 Mai 2021 am 8 p.m.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol ar Zoom: Janine Roberts, Pauline George, Steve Haines, Rhys Williams, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Dros y ffôn: Marged Bowen a John Williams.

Ymddiheuriadau: Sarah Walters.

Cynigiwyd a chytunwyd y dylai Janine Roberts gymryd awennau'r Gadeiryddiaeth yn ystod y cyfarfod. Datganiadau o Fuddiant. Jane Morgan. Eitem 10 Cyflog y Clerc.

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod 06.04.2021 yn gywir.

Materion yn codi.

Yr Hen Onnen. Roedd ateb wedi dod i law gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn cynghori y disgwylid y byddai 95% o'r coed ynn yn diflannu yn y wlad oherwydd clefyd coed ynn. Ar y pryd, nid oeddent yn ystyried bod coed ynn yn cael eu hamddiffyn gan Orchmynion Diogelu Coed (TPO). Roeddent wedi gofyn i ni anfon llun o'r onnen yn llawn dail (mis Awst). Cytunwyd i dynnu llun yn ôl y gofyn a'i anfon ym mis Awst. Roedd diweddariad wedi dod i law gan Heddlu Dyfed-Powys ac wedi cael ei drafod.

Byddai'r Cynghorydd Sir Joseph Davies yn holi ynghylch mater cynllunio yn Nroedrhiwlas, Talylychau. Y Cae Cymunedol. Cynhaliwyd cyfarfod safle am 7 p.m. yn unol â'r trefniant. Yn bresennol: Janine Roberts, John Williams a Jane Morgan (Clerc). Yr eitemau canlynol i'w rhoi ar yr Agenda i'w trafod yn y cyfarfod nesaf. Byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i SWALEC/Western Power bod yna goeden a oedd wedi tyfu'n agos iawn at y ceblau trydan.

Ethol swyddogion ar gyfer 2021-22. Cytunwyd y byddai Sarah Walters yn cael ei hailethol yn Gadeirydd ac y byddai Marged Bowen yn cael ei hailethol yn Is-gadeirydd.

Y gyfriflen banc ddiweddaraf a cheisiadau am dâl. Y balans ar y gyfriflen ar 27 Ebrill 2021 oedd £4,985.07. Gwiriwyd gan Janine Roberts. Cytunwyd i dalu'r canlynol: Cyflog J. Morgan £168.88; Cyllid a Thollau ei Mawrhydi £42.20.

Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd trwy e-bost.

Cafwyd hysbysiad, dyddiedig 28 Ebrill 2021 yn nodi bod taliad Praesept o £3,333.34 wedi dod i law.

Archwilio Cyfrifon 2020-21. Roedd hysbysiad wedi dod i law yn nodi y byddai'r trefniadau newydd yn cael eu gohirio am flwyddyn. Byddai'r trefniadau newydd, felly, yn berthnasol ar gyfer archwilio cyfrifon 2021-22.

Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Byddai hwn yn cael ei gynnal ar-lein gan ddefnyddio Zoom. Byddai'r clerch yn ymateb gan ddweud y byddai gan yr aelodau ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn digwyddiad ar-lein, ac y byddai'n well ganddynt sesiwn fin nos.

Cwblhawyd y cais am ddata ynghylch y Cod Ymddygiad.

*Clerks & Councils Direct.*

Cynllunio.

PL/01736. Hysbysiad Ymlaen Llaw: Adeilad (Amaethyddol/Coedwigaeth) Swallow Barn, Talylychau, ar gyfer T a J Watson.

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Cyflog y Clerc. Gadawodd y Clerc, Jane Morgan, y cyfarfod. Cytunwyd y byddai cyflog y Clerc yn codi 5% (£10.55) o £211.08 gros i £221.63 gros, a hynny i ddechrau o'r taliad nesaf.

Daeth y Clerc, Jane Morgan, yn ei hôl i'r cyfarfod.

Gadawodd Steve Haines y cyfarfod am 9.30 p.m.

Nid oedd yna unrhyw fusnes arall, a daeth y cyfarfod i ben tua 9.45 p.m.

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth 1 Mehefin 2021 am 8 p.m. Byddai'r Clerc yn holi Un Llais Cymru i weld a fyddai'n bosibl i'r cyfarfod hwn fod wyneb yn wyneb. Roedd Tim Nelson, y Ficer wedi dweud bod croeso i ni ddefnyddio Eglwys San Mihangel ar gyfer cyfarfodydd.